PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

# Y CYNGOR

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am 13:00 ar 23 MAWRTH 2026, yn y Ganolfan Ddeialog, y Ganolfan Ddelweddu.**

Yn bresennol: Meri Huws, Cadeirydd y Cyngor (Cadeirydd); Rhuanedd Richards, (Dirprwy Gadeirydd); Dr Paul Bevan; Yr Athro Sarah Davies; Kate Eden; Kylie Evans; Millie Hackett, Undeb Aberystwyth; Nanw Maelor, (Swyddog Diwylliant Cymru a Llywydd UMCA); Yr Athro Angela Hatton, Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil, Cyfnewid Gwybodaeth ac Arloesi); Dr Aloysius Igboekwu; Yusuf Ibrahim; Arwel Thomas; yr Athro Jon Timmis, Is-Ganghellor; Jane Usherwood a Claire Vaughan

Yn gweinyddu: Julie Archer, Pennaeth Llywodraethu (cofnodion); Simon Crick, Prif Swyddog Ariannol; Mrs Jean Jones, Pennaeth Swyddfa'r Is-Ganghellor; Dr Gwawr Taylor, Ysgrifennydd y Brifysgol a Chyfarwyddwr y Gymraeg; Steve Thomas, Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Materion Allanol.

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Dan Richards a Mark Tweed

**37. MATERION I'W CODI GAN Y CADEIRYDD**

**38. GWRTHDARO BUDDIANNAU**

Dywedodd Yusuf Ibrahim ei fod wedi cael ei benodi i fwrdd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn ddiweddar.

**39. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

DERBYNIWYD

Cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 24 Tachwedd 2025 (COU2526-057), a chofnodion y cyfarfodydd arbennig a gynhaliwyd ar 30 Ionawr 2026 (COU2526-058) a 23 Chwefror 2026 (COU2525-059).

**PENDERFYNWYD**

1. Cymeradwywyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Tachwedd yn gywir.
2. Cymeradwywyd bod cofnodion y cyfarfod arbennig a gynhaliwyd ar 30 Ionawr yn gywir.
3. Cymeradwywyd bod cofnodion y cyfarfod arbennig a gynhaliwyd ar 23 Chwefror yn gywir.
4. Ystyried trefnu cyfarfod ychwanegol o'r Cyngor ym mis Ionawr [**GWEITHRED**: Ysgrifennydd y Brifysgol a Chyfarwyddwr y Gymraeg].

Cymeradwywyd gan y Cyngor 15/05/2026

**40. MATERION YN CODI O'R COFNODION**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Dr Gwawr Taylor, Ysgrifennydd y Brifysgol a Chyfarwyddwr y Gymraeg (COU2526-060) yn rhoi diweddariad ar gamau gweithredu y cytunwyd arnynt eisoes.

NODWYD

1. Mae gwaith ar rai camau gweithredu yn parhau, gan gynnwys cysylltu â'r Cyfrin Gyngor. Ar y materion hynny, gellir cyfuno camau gweithredu 67.1.6 a 67.1.11.
2. 7.1.3 – Pennaeth Cynllunio i adrodd ar dariffau – Bydd llywodraethu yn codi hyn ar gyfer cyfarfod yn y dyfodol.
3. 40.3 – Adroddiad gan Undeb Aber ym mis Mawrth 2025 – Nododd swyddogion Undeb Aber y bydd Llywydd UMCA yn parhau i fod yn aelod o'r Cyngor yn y dyfodol.

**41. PENDERFYNIADAU A WNAED RHWNG CYFARFODYDD**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Dr Gwawr Taylor, Ysgrifennydd y Brifysgol a Chyfarwyddwr y Gymraeg (COU2526-061) yn manylu ar faterion sydd wedi'u cymeradwyo gan yr aelodau drwy ohebiaeth ers y cyfarfod diwethaf.

NODWYD

1. Roedd Cadeirydd y Cyngor a'r Is-Ganghellor wedi hysbysu Medr bod y *Telerau ac Amodau Cyllid*, wedi cyrraedd a'u derbyn, mae'r rhain yn nodi'r telerau ac amodau ar gyfer talu arian gan y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Medr) i gorff llywodraethu'r Brifysgol allan o arian a ddarparwyd gan y Gweinidog Addysg.

2. Roedd penderfyniadau pellach wedi'u gwneud yng nghyswllt Sêl y Brifysgol, ac mae'r manylion hynny wedi'u cynnwys er gwybodaeth o dan eitem 12.2 ar yr agenda.

**PENDERFYNWYD**

3. Nodwyd yr adroddiad.

**42. ADRODDIAD YR IS-GANGHELLOR**

DERBYNIWYD

1. Adroddiad gan yr Athro Jon Timmis, Is-Ganghellor (COU2526-062), sy'n cynnwys tair adran allweddol: adroddiad yn amlygu'r prif bwyntiau; cynllunio, gan gynnwys denu myfyrwyr; a chyfathrebu.

2. Cyflwynodd yr Is-Ganghellor ddiweddariad ar lafar ar y setliad diweddar y tu allan i'r llys yn yr achos dosbarth yn erbyn UCL, yn ogystal â'r achosion diweddar o lid yr ymennydd sy'n effeithio ar fyfyrwyr ym Mhrifysgol Caint.

Cymeradwywyd gan y Cyngor 15/05/2026

NODWYD

3. Mae gwerthiant Llanbadarn yn mynd rhagddo, ond mae disgwyl i'r elw gael ei dderbyn nawr yn Ch4, yn hytrach nag ym mis Mawrth neu fis Ebrill.

4. Mae'r Brifysgol ar y trywydd iawn i gwrdd â'r £1.9m o ddiffyg y cytunwyd arno. Bydd y gyllideb ar gyfer y flwyddyn nesaf, fodd bynnag, yn heriol. Wrth fyfyrio ar y drafodaeth yn ystod sesiwn friffio'r bore, gofynnodd swyddogion am gymeradwyaeth gan y Cyngor i'r Is-Ganghellor gysylltu â Medr i drafod y cyd-destun ariannol a denu myfyrwyr.

5. Yn ddiweddar, gwahoddodd Llywodraeth Cymru randdeiliaid i gyfrannu tystiolaeth i helpu i lywio polisi ar ddyfodol addysg drydyddol. Nododd swyddogion fod y Brifysgol wedi cyfrannu fel rhan o gyflwyniad Prifysgolion Cymru.

6. Ceisiodd yr aelodau eglurder ynghylch y cyfeiriad yn yr adroddiad at ddarpariaeth nyrsio ar-lein. Cadarnhaodd swyddogion fod y gwaith hwn yn cael ei yrru gan y Ganolfan Addysg Gofal Iechyd, mewn partneriaeth â Higher Education Partners (HEP), i gynnig darpariaeth ôl-raddedig. Byddai'r sefyllfa o ran denu myfyrwyr yn cael ei thrafod ymhellach o dan eitem 8.2.

**PENDERFYNWYD**

7. Cymeradwywyd cais yr Is-Ganghellor i gysylltu'n anffurfiol â Medr i drafod y cyd-destun ariannol a denu myfyrwyr.

8. Nodwyd adroddiad yr Is-Ganghellor.

**43. ADRODDIAD GAN UNDEB ABERYSTWYTH**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Millie Hackett, Llywydd Undeb Aber a Nanw Maelor Hampson, Llywydd UMCA (COU2526-063).

NODWYD

1. Mewn cyferbyniad â'r darlun mewn undebau myfyrwyr eraill ledled y DU, ym mis Mawrth gwelwyd cworwm yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, lle cynhaliwyd trafodaethau ynghylch penodi ymddiriedolwyr myfyrwyr, BDS o ran nwyddau Israelaidd, lleihau militariaeth ar y campws, a chefnogi Siarter Amddiffyn Anghytundeb Amnest y DU.

2. Cynhaliwyd etholiadau yn ystod yr wythnos o 16-20 Mawrth, a'r canran a bleidleisiodd oedd 35%. Bydd tymor y swyddogion presennol yn dod i ben ddiwedd mis Mehefin.

3. Dangosodd arolwg tymor un, a oedd â 500 o ymatebwyr, fod myfyrwyr yn gyffredinol hapusach ac iachach na'r llynedd.

4. Mae'r paratoadau wedi'u cwblhau ar gyfer y Varsity sydd i ddod, a fydd yn croesawu Bangor ddydd Mercher, ar gyfer y gystadleuaeth canol wythnos gyntaf.

5. Mynychodd UMCA yr Eisteddfod Ryng–golegol yng Nghaerdydd, lle enillodd Aberystwyth am y drydedd flwyddyn yn olynol. Enillodd myfyrwyr Aberystwyth y Goron, y Fedal Gerddoriaeth a'r Fedal Gelf hefyd.

Cymeradwywyd gan y Cyngor 15/05/2026

6. Mae gwaith i sefydlu cyfansoddiad ar gyfer UMCA yn parhau. Yn ddiweddar, cymeradwywyd is-ddeddf gan Fwrdd Ymddiriedolwyr Undeb Aber sy'n amlinellu datblygiad y berthynas rhwng UMCA a'r Undeb. Amlinellir hefyd sut y gellir ethol Llywydd UMCA mewn ffordd sy'n diogelu anghenion myfyrwyr Cymraeg, tra'n sicrhau cydymffurfiaeth â chyfreithiau elusennol.

7. Yn ddiweddar, cafodd Llywydd UMCA gyfle i fynychu Cynhadledd AMLÉ yng Nghorc, i drafod arwyddocâd ieithoedd lleiafrifol mewn addysg uwch a'r gymdeithas yn ehangach.

**PENDERFYNWYD**

8. Nodwyd yr adroddiad gan Undeb Aberystwyth.

**44. MATERION ARIANNOL**

1. <u>Diweddariad am y Cyfrifon Rheoli</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Dallas Baker, <u>Pennaeth Dros Dro Rheoli Ariannol ac Adrodd</u>, a Stephen Harrison, <u>Pennaeth Gweithrediadau Ariannol a Chydymffurfio</u> (COU2526-064) sy'n nodi perfformiad ariannol y Brifysgol yn Chwarter 2.

NODWYD

1. Craffwyd ar y papurau a'u trafod gan y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformio.

2. Y sefyllfa a ragwelir ar hyn o bryd yn Ch2, gyda lefel dda o hyder, yw y byddwn yn cwrdd â'r £1.9m o ddiffyg a gymeradwywyd. Mae nifer o amrywiannau, rhai yn anffafriol, megis y gostyngiad mewn prisiau llaeth sy'n effeithio ar ragolygon y ffermydd, a rhai yn ffafriol, megis arbedion yn sgil swyddi gwag o fis i fis.

3. Gofynnodd yr aelodau am eglurder ar amseriad arwerthiant Llanbadarn. [redacted] Cwestiynodd yr aelodau a oes unrhyw risg oherwydd yr etholiadau sydd i ddod, a chadarnhaodd swyddogion fod y risg yn ymwneud ag amseru, yn hytrach na'r dirwedd wleidyddol. [redacted]

4. Mae gwaith adeiladu ar yr Hen Goleg yn cynyddu, sy'n gadarnhaol, ond yn creu risg llif arian parod i'r Brifysgol. Mae 50% o daliadau'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr ym mis Mai, felly mae'r cyfnod sy'n arwain at hynny yn heriol, ac mae swyddogion wedi nodi camau i liniaru hyn. [redacted]

5. Cynhaliwyd trafodaethau ynghylch gwaredu rhagor o asedau posibl.

**PENDERFYNWYD**

6. [redacted]

Cymeradwywyd gan y Cyngor 15/05/2026

7. Nodwyd yr adroddiad.

2. <u>Adroddiad Denu a Chofrestru</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad ar ddenu myfyrwyr a rhagolygon o ran nifer y myfyrwyr gan Cynllunio Strategol (COU2526-065), gyda diweddariad llafar gan Fran Carey, Prif Swyddog Marchnata.

NODWYD

1. Mae data yn dangos gostyngiad mewn ceisiadau ffioedd cartref flwyddyn ar ôl blwyddyn. Mae'r Brifysgol wedi cynyddu ei chronfa o ddeiliaid cynigion diamod, [redacted]

2. Mae gwaith yn mynd rhagddo o ran rhaglenni wedi'u capio. Mae sgyrsiau byw gyda'r Coleg Milfeddygaeth Brenhinol ynghylch Gwyddor Filfeddygol ac arferion derbyn myfyrwyr. Mae swyddogion hefyd yn pwyso a mesur posibiliadau eraill, [redacted]

3. Nododd swyddogion fod dilyniant o israddedig i ôl-raddedig, a rhyngwladol, ill dau yn heriol. Mae swyddogion yn edrych yn ystod y flwyddyn ar gyfraddau parhau a sut y gellir eu cefnogi. [redacted] Mae pryderon am farchnad yr Unol Daleithiau, lle mae'r Brifysgol bob amser wedi bod yn gryf, gyda chystadleuaeth gynyddol gan Grwpiau Russell.

4. [redacted] Mae'r gwaith yn parhau o ran hunaniaeth brand a naratif. Mae gan y Brifysgol strategaeth gref, ond nid yw hynny o reidrwydd yn trosi i ymennydd ymgeiswyr 17 oed. Mae'r sgwrs groesawu yn y diwrnodau ymweld i ymgeiswyr yn cynyddu ei ffocws ar berthyn a chynhwysiant.

5. [redacted]

6. Cwestiynodd yr aelodau a oes tueddiadau penodol ynghylch iaith astudio. Cadarnhaodd swyddogion fod y niferoedd yn gostwng ar yr un gyfradd a nodwyd bod astudiaethau trawsffiniol yn mynd y ffordd anghywir, gyda mwy o fyfyrwyr o Gymru yn dewis astudio mewn mannau eraill yn y DU.

**PENDERFYNWYD**

7. Nodwyd yr adroddiad.

3. <u>Rhagdybiaethau yn y Gyllideb</u>

DERBYNIWYD

Diweddariad llafar gan Simon Crick, Prif Swyddog Ariannol ar y rhagdybiaethau allweddol yn y gyllideb ar gyfer 2026-27.

NODWYD

1. [redacted] FOIA s43(2)

2. Derbyniodd yr aelodau sesiwn friffio fanwl yn ystod y bore strategaeth cyn y cyfarfod ffurfiol ac maent yn ymwybodol o'r heriau ariannol yn sefydliadol, ar draws y sector, ac yn fyd-eang.

**PENDERFYNWYD**

3. Nodwyd yr adroddiad.

4. <u>Adnodd Credyd Cylchdroi: Estyniad i'r contract cyfredol</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Simon Crick, y Prif Swyddog Ariannol (COU2526-066).

NODWYD

1. Fel y nodir yn y diweddariad Cyfrifon Rheoli, ac a argymhellwyd i'r Cyngor gan y Pwyllgor A&Ph, mae'r papur yn ceisio cymeradwyaeth i sbarduno'r estyniad 12 mis i'r Adnodd Credyd Cylchdroi i gynorthwyo hylifedd a darparu gwytnwch a chysondeb tra bod y cynllun ariannu tymor byr i ganolig yn cael ei ddiffinio.

**PENDERFYNWYD**

2. Cymeradwywyd y cais i sbarduno'r estyniad adnodd 12 mis i'r Adnodd Credyd Cylchdroi.

5. <u>Derbyn Datganiad Ariannol Undeb Aber ar gyfer 2024-25</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Trish McGrath, Prif Swyddog Gweithredol, Undeb Aber (COU2526-067) gan gynnwys y datganiad blynyddol ar gyfer 2024-25 a naratif ar gyfer y gwarged yn ystod y flwyddyn.

NODWYD

1. Mae amod yn Neddf Addysg 1994 sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i Gyngor y Brifysgol oruchwylio sut mae Undeb y Myfyrwyr yn cynnal ei faterion ariannol.

**PENDERFYNWYD**

2. Nodwyd datganiadau ariannol Undeb Aberystwyth ar gyfer 2024-25.

Cymeradwywyd gan y Cyngor 15/05/2026

**45. DIWEDDARIAD A PHOLISI IECHYD A DIOGELWCH**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Claire Williams, Rheolwr Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd (COU2526-069).

NODWYD

1. Nodwyd bod archwilio manwl wedi digwydd yn y Pwyllgor Llywodraethu a Diwylliant.
2. Nododd yr aelodau y byddai'n ddefnyddiol gweld dangosfwrdd DPA ar gyfer cofnodi digwyddiadau.
3. Cododd yr aelodau bryderon ynghylch nifer yr adroddiadau am ddigwyddiadau 'wedi'u taro gan gerbyd' a chafwyd sicrwydd bod y rhain yn adlewyrchu cyswllt â gwrthrychau difywyd megis ffensys, yn hytrach na phobl.
4. Cydnabu'r aelodau y lefel ragorol o fanylion mewn adroddiadau IDA.

**PENDERFYNWYD**

5. Cymeradwywyd y diweddariad i'r Polisi Iechyd a Diogelwch.

**46. YR HEN GOLEG**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Anwen Jones, Dirprwy Is-Ganghellor, Addysg a Phrofiad y Myfyrwyr a Jim O'Rourke, Rheolwr Prosiect yr Hen Goleg (COU2526-068) yn rhoi diweddariad ar weithgaredd adeiladu a'r cais i gynyddu'r grant (GIR) i Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol.

NODWYD

1. Ystyriwyd y papur gan y Weithrediaeth a'r Pwyllgor A&Ph, a'r manylion am gynnydd y safle, sy'n ennill momentwm. Mae'r brif ffrâm ddur ar gyfer yr ystafell ddigwyddiadau bellach yn ei lle.
2. FOIA s43(2) [redacted]
3. Cymeradwywyd a chytunwyd ar y cyfrwng ar gyfer rheolaeth y gwesty, ac mae'r broses yn agosáu at ei chwblhau.
4. FOIA s43(2) [redacted]
5. Dychwelir at faterion llywodraethu o ran yr is-gwmni yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Mai [**GWEITHRED**: Pennaeth Llywodraethu]. Nodwyd y bydd y swyddogion yn ymddiriedolwyr tra bod yr endid yn gragen.
6. Tynnodd yr aelodau sylw at y risg ynghylch yr Hen Goleg. Mae'n alw sylweddol ar amser y Dirprwy Is-Ganghellor a chodwyd pryder am eu llwyth gwaith. Roedd y swyddogion yn

Cymeradwywyd gan y Cyngor 15/05/2026

cydnabod hyn ac yn pwysleisio'r angen am flaenoriaethu. Y flaenoriaeth gyntaf yw ymateb i unrhyw gwestiynau gan reolwr busnes Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol. Nododd yr aelodau eu bod yn cadw'r hawl i ddychwelyd at y pwnc risg mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

7. Dymunodd yr aelodau gydnabod y cynnydd a nodwyd yn y papur, a'r ymdrech a oedd yn rhan o hyn, gan nodi bod y delweddau yn ddefnyddiol iawn.

**PENDERFYNWYD**

8. Dod â'r papur diwygiedig yn ôl i'r Pwyllgor A&Ph i'w drafod ymhellach, FOIA s43(2) [redacted] [**GWEITHRED**: Dirprwy Is-Ganghellor, Addysg a Phrofiad y Myfyrwyr]

**47. ADRODDIAD BLYNYDDOL AR GYDRADDOLDEB A DATGANIAD CYFLOG CYFARTAL**

DERBYNIWYD

Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb, Adroddiad ar y Bwlch Tâl rhwng Grwpiau Ethnig, ac Adroddiad ar y Bwlch Tâl rhwng y Rhywiau gan Dylan Jones, Partner Busnes Adnoddau Dynol (CAaCh a Datblygu Sefydliadol) (COU2526-070).

NODWYD

1. Mae'n ofynnol i'r Brifysgol gyhoeddi'r dogfennau hyn, a bydd hyn yn digwydd erbyn diwedd mis Mawrth. Nododd swyddogion fod y Brifysgol yn dewis cyhoeddi'r bwlch tâl rhwng grwpiau ethnig.

2. Nodwyd y symudiadau cadarnhaol ynghylch y bwlch tâl rhwng y rhywiau, gan gydnabod na chafwyd dyrchafiadau academaidd.

3. Cwestiynodd yr aelodau y nifer isel o anableddau a ddatganwyd, nad yw'n gynrychioliadol o'r sector nac o'r gymdeithas ehangach. Cydnabu'r swyddogion y gallai ymddiriedaeth fod yn broblem o hyd.

4. Nododd yr aelodau y byddai'n ddefnyddiol gweld mwy o adroddiadau sy'n seiliedig ar ddirnadaeth, megis y nifer uchel o ymgeiswyr nad ydynt yn wyn, yn erbyn nifer is o unigolion a benodir.

5. Nododd yr aelodau fod yr adroddiad yn mynd y tu hwnt i'r gofynion statudol, ac felly mae'n bwysig cyd-destunoli.

**PENDERFYNWYD**

6. Nododd yr aelodau eu diolch i'r Partner Busnes AD am eu gwaith ar yr adroddiadau.

7. Cymeradwywyd yr adroddiadau i'w cyhoeddi.

**48. MATERION LLYWODRAETHU**

1. <u>Digwyddiadau Difrifol y rhoddwyd gwybod i'r Comisiwn Elusennau amdanynt</u>

DERBYNIWYD

Cymeradwywyd gan y Cyngor 15/05/2026

Adroddiad gan Dr Gwawr Taylor, Ysgrifennydd y Brifysgol a Chyfarwyddwr y Gymraeg (COU2526-071).

NODWYD

Ni roddwyd gwybod am unrhyw ddigwyddiadau difrifol i'r Comisiwn Elusennau ers y cyfarfod diwethaf, ond gwnaed dau adroddiad i Medr yn unol â'u gofynion tryloywder. Roedd y rhain yn ymwneud â phrotest o blaid Palesteina ar y campws, a marwolaeth myfyriwr PhD pan oedd gartref.

**PENDERFYNWYD**

Nodwyd yr adroddiad.

2. Adroddiad ar ddogfennau wedi'u selio â'r Sêl Gyffredin

Adroddiad gan Dr Gwawr Taylor, Ysgrifennydd y Brifysgol a Chyfarwyddwr y Gymraeg (COU2526-072).

NODWYD

1. Mae Sêl Gyffredin y Brifysgol wedi'i gosod ar dair dogfen ers y cyfarfod diwethaf. Roedd dwy yn gytundebau grant yn ymwneud â'r Hen Goleg, a'r trydydd oedd Oriel Gelf Gyfoes Genedlaethol Cymru, a gymeradwywyd gan y Cyngor ym mis Tachwedd 2025.

**PENDERFYNWYD**

2. Nodwyd y defnydd o'r Sêl Gyffredin.

3. <u>Adroddiad ar Gydymffurfio â Chod Ymarfer Undeb Aberystwyth</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Dr Gwawr Taylor, Ysgrifennydd y Brifysgol a Chyfarwyddwr y Gymraeg (COU2526-073)

NODWYD

1. Roedd yr adolygiad blynyddol hwn, i roi gwybod i'r aelodau i ba raddau y mae'r Brifysgol ac Undeb Aber yn cydymffurfio â'r Cod Ymarfer, wedi cael ei ystyried gan y Pwyllgor Ll&Ch.

2. Bu symudiadau cadarnhaol, ac mae sgyrsiau'n parhau ynghylch cytundeb perthynas.

3. Nododd swyddogion Undeb Aberystwyth y byddai swyddogion newydd eu hethol yn cysgodi o gyfnod y Pasg ymlaen.

**PENDERFYNWYD**

4. Nodwyd yr adroddiad.

4. Adroddiad ar aelodaeth y Pwyllgor: Sgiliau ac Amrywioldeb

DERBYNIWYD

Cymeradwywyd gan y Cyngor 15/05/2026

Adroddiad gan Dr Gwawr Taylor, Ysgrifennydd y Brifysgol a Chyfarwyddwr y Gymraeg (COU2526-074) yn cyflwyno data amrywioldeb ar gyfer aelodaeth y pwyllgor presennol.

NODWYD

1. Ystyriwyd yr adroddiad gan y Pwyllgor Enwebiadau. Mae gan swyddogion bellach fwy o ddata, ac mae'r tîm Llywodraethu yn gweithio gyda chydweithwyr Adnoddau Dynol i wella'r broses o gasglu a storio data.

2. O ran recriwtio aelodau parhaus, mae Odgers Berndtson wedi llunio rhestr hir, ac maent wedi siarad â phob un ohonynt. Roedd amrywioldeb ethnig yn ofyniad penodol a bwysleisiwyd i'r asiantau chwilio, ond nid oedd hyn yn cael ei adlewyrchu i ddechrau yn yr ymgeiswyr a gyflwynwyd. Bydd rhestr fer yn cael ei llunio yfory, a chynhelir y cyfweliadau ddechrau mis Ebrill. Adroddodd swyddogion fod safon y ceisiadau yn uchel iawn, a bod y panel yn falch iawn.

3. Cwestiynodd yr aelodau a yw unigolion yn debygol o fod yn adnabyddadwy o'r data. Rhoddodd y swyddogion sicrwydd bod diogelu data yn ystyriaeth allweddol mewn unrhyw gofnodi, ac y byddai unrhyw risg o adnabod yn cael ei liniaru. Cwestiynodd yr aelodau a allent gael golwg ar yr un manylion ar gyfer y Senedd, a chadarnhaodd y swyddogion nad yw hyn yn cael ei gasglu ar hyn o bryd, ond y gellid ei ystyried ar gyfer y dyfodol.

**PENDERFYNWYD**

4. Nodwyd yr adroddiad ar sgiliau ac amrywioldeb aelodau'r pwyllgor.

**49. COFRESTR RISG Y BRIFYSGOL**

DERBYNIWYD

Adroddiad ar Gofrestr Risg y Brifysgol gan Dr Gwawr Taylor, Ysgrifennydd y Brifysgol a Chyfarwyddwr y Gymraeg (COU2526-075).

NODWYD

1. Mae’r Pwyllgor AR&S wedi cynnal sesiwn ar reoli risg.

2. Mae'r tîm Llywodraethu wedi dechrau sgyrsiau gyda pherchnogion risg i sefydlu beth sydd wedi’i gynnwys ar y Gofrestr Risg ar hyn o bryd ac i nodi unrhyw fylchau.

3. Nododd y swyddogion yr angen i wella mynegiant y sgyrsiau a geir gan y Weithrediaeth. Mae argymhellion defnyddiol eisoes wedi bod yn bwydo'n ôl i’r Weithrediaeth gan bwyllgorau.

4. Mae’r Pwyllgor AR&S yn awyddus i gadw rôl a nododd fod ei aelodau yn llawer mwy cyfforddus gyda chyfansoddiad Cofrestr Risg y Brifysgol, ac aliniad y risgiau â'r cynllun strategol. Mae trafodaethau bellach wedi symud ymlaen i risgiau unigol, yn hytrach na lliwiau a sgoriau, sy'n gadarnhaol.

**PENDERFYNWYD**

5. Nodwyd Cofrestr Risg y Brifysgol.

## 50. ADRODDIAD BLYNYDDOL AR GWYNION GAN Y CYHOEDD

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Jean Jones, Pennaeth Swyddfa'r Is-Ganghellor (COU2526-076) yn crynhoi'r materion yr ymdriniwyd â nhw o dan Weithdrefn Cwynion gan y Cyhoedd y Brifysgol yn ystod blwyddyn galendr 2025.

NODWYD

1. Ystyriwyd yr adroddiad gan y Pwyllgor Ll&Ch.
2. Tynnwyd sylw at y gostyngiad yn nifer y cwynion, gan nodi bod hyn yn debygol o fod o ganlyniad i well cyfeirio at brosesau cwyno eraill, mwy priodol.
3. Nododd yr aelodau y gallai'r cynnydd mewn ceisiadau a gynhyrchir gan DA fod yn broblem yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD**

4. Nodwyd yr adroddiad blynyddol ar gwynion gan y cyhoedd.

## 51. UNRHYW FATER ARALL, AROLWG O'R CYFARFOD, A MATERION YN Y DYFODOL

1. Trafodwyd bygythiadau diweddar, a gafodd eu trin fel cyfathrebiadau maleisus, a arweiniodd at gau dwy ysgol yng Nghaerdydd. Rhoddodd swyddogion sicrwydd bod gan y Brifysgol brosesau parhad busnes ar waith ac mae hefyd yn paratoi ar gyfer Cyfraith Martyn sy’n dod i rym yn 2027.
2. Nododd yr aelodau fod hwn yn gyfnod heriol a gofynasant i'r Weithrediaeth alw arnynt am gefnogaeth mewn unrhyw faes.

Daeth y cyfarfod i ben am 15:35.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 15 Mai 2026.

Cymeradwywyd gan y Cyngor 15/05/2026